



EARTHBODY(S)_BIOME(TRICS)_Mirrored Fatality

**TOUR DE MOON YN CYRRAEDD GŴYL FFILM FER LLUNDAIN YN BFI
SOUTHBANK AR GYFER NOSON ARBENNIG O DDANGOSIADAU A
DATHLIADAU**

Tour de Moon X PXSSY PALACE

TOCYNNAU AR GAEL [YMA](#)

Mae Tour de Moon yn cyflwyno Moon Cinema, rhaglen o ffilmiau byrion sy'n rhoi llwyfan i leisiau newydd arloesol ym maes gwneuthurwyr ffilmiau fel rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU. Ceir cysyniadau newydd arloesol, estheteg radical a themâu pwysig gwrthddiwylliant ieuencid a bywyd nos.

Bydd **Tour de Moon a PXSSY PALACE** yn meddiannu **Gŵyl Ffilm Fer Llundain (LSFF)** yn **BFI Southbank** ar **27 Ionawr 2023** gyda rhaglen o **11 ffilm fer** a gomisiynwyd yn wreiddiol fel rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU ar gyfer Tour de Moon. Mae tocynnau bellach ar gael ar gyfer noson arbennig o ddangosiadau, sy'n diweddu gyda digwyddiad a gynhelir gan PXSSY PALACE.

Eleni, buddsoddodd **Tour de Moon** mewn cannoedd o bobl ifanc creadigol sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu prosiectau creadigol beiddgar, llawn dychymyg newydd, yn bennaf gan bobl ifanc 18 i 25 oed, ar draws y DU a thu hwnt. Roedd hyn yn cynnwys yr 11 gwneuthurwr ffilmiau a gomisiynwyd y mae eu gwaith yn cael ei ddangos yn LSFF.

Gwefan: <https://tourdemoon.com/whats-on>Instagram: [@Tour_de_Moon](https://www.instagram.com/Tour_de_Moon)Twitter: [@tourdemoon](https://twitter.com/tourdemoon)TikTok: [@tourdemoon](https://www.tiktok.com/@tourdemoon)LLUNIAU LLONYDD GYDA CHORONAU LLAWRYF [yma](https://www.youtube.com/channel/UC...)

Ym mis Ionawr 2023, bydd **LSFF** yn dathlu 20 mlynedd o raglennu unigryw, radical mewn sinemâu ledled Llundain, gyda gŵyl arall yn llawn dangosiadau a digwyddiadau. Eleni, gyda chefnogaeth Cronfa Gynulleidfa'r BFI yn rhoi arian gan y Loteri Genedlaethol, mae'r ŵyl yn partneru â chydweithfeydd lluosog a chyd-raglenwyr gwerthfawr ochr yn ochr â phartneriaid cyfryngol arwyddocaol, gyda'r nod o ddyrchafu a hyrwyddo talent gwneud ffilmiau newydd yn y DU ac yn fyd-eang, a thyrchu yn yr archif i ddod o hyd i straeon heb eu hadrodd.

Yn Hyb Diwydiant **LSFF** yn Rich Mix ddydd Gwener 27 Ionawr, bydd y gwneuthurwyr ffilmiau **Tour de Moon** a gomisiynwyd yn cymryd rhan mewn sesiynau cyngor un-i-un gydag arbenigwyr y diwydiant ffilm a chynrychiolwyr dosbarthwyr a llwyfannau gan gynnwys MUBI, Netflix a BFI Network.

Mae **PXSSY PALACE**, a fu'n cydweithio'n flaenorol â gŵyl Tour de Moon yn eu digwyddiad haf yng nghlwb ieuencid hynaf y DU - Clwb Ieuencid Pedro - yn gyfrifol am gynnal y parti ar ôl y digwyddiad. Llwyfan celfyddydol yw PXSSY PALACE sydd wedi'i wreiddio mewn bywyd nos bwriadol, sy'n dathlu pobl dduon, frodorol a phobl o liw sy'n fenywod, cwiar, rhyngryw, traws neu anneauaid. Maent yn darparu lle i ddawnsio, cysylltu ac ymgysylltu, gan annog cydsyniad, rhyddid rhywiol, pleser, mynegiant ac archwilio ein hunain go iawn.

Dywedodd sylfaenydd gŵyl Tour de Moon, Dr Nelly Ben Hayoun-Stépanian: "Rydym wrth ein boddau ein bod yn cydweithio â Gŵyl Ffilm Fer Llundain sydd bellach yn dathlu 20 mlynedd o hyrwyddo gwneuthurwyr ffilmiau byrion a'u creadigrwydd di-ben-draw. Rydym hefyd yn teimlo'n gyffrous i fod yn cydweithio â'n cydbeckaduriaid, y llwyfan celfyddydol PXSSY PALACE i gynnig cyfle i gynulleidfaoedd gymryd rhan yn un o'r partïon wedi'r digwyddiad mwyaf cosmig sydd gan y ddaear i'w gynnig! Yn Tour de Moon rydym yn gobeithio y bydd y digwyddiad hwn sy'n cael ei gynnal yn hyb yr Ŵyl yn y BFI Southbank enwog yn dod â chyfleoedd gwirioneddol i wneuthurwyr ffilmiau ifanc ac ehangu plwraliaeth lleisiau creadigol ifanc sy'n arddangos eu doniau a'u dychymyg radical. Mae Tour de Moon yn teithio gyda'r nos, gan chwilio am ddechreuadau newydd i rymuso eraill i greu, cychwyn ac arloesi gyda meddwl ac arferion plwraliaethol newydd fel nad yw hanes yn ailadrodd ei hun ar y Ddaear a thu hwnt."

Dywedodd Nadine Noor, sylfaenydd Pxssy Palace: "Rwy'n teimlo'n gyffrous o fod yn dathlu ein partneriaeth â Tour De Moon a LSFF – i amlygu'r gwneuthurwyr ffilmiau, yr artistiaid a'r DJs anhygoel hyn - a dod â Pxssy Palace i'r BFI eiconig."

Dywedodd Philip Ison, Cyfarwyddwr Artistig a Sylfaenydd Gŵyl Ffilm Fer Llundain: "Y ffilmiau a wnaed gan y cyfarwyddwyr ifanc hyn drwy Tour de Moon yw'r union beth sy'n cyffroi'r tîm yng Ngŵyl Ffilm Fer Llundain (LSFF): lleisiau newydd, radical sy'n gwthio ffiniau ac yn herio cynulleidfaoedd, i adrodd straeon newydd. Mae LSFF yn falch o weithio mewn partneriaeth â Tour de Moon a Pxssy Palace am y tro cyntaf gyda'r digwyddiad hwn, ac yn edrych ymlaen at gydweithio yn y dyfodol."

Dywedodd Phil Batty, Cyfarwyddwr Gweithredol UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU: "Pan gomisiynwyd Tour de Moon fel rhan o UNBOXED, gwelsom gyfle anhygoel i fuddsoddi yn llif prosiectau talent y diwydiannau creadigol. Mae gwaith yr 11 gwneuthurwr ffilmiau yn gipolwg ar



Gwefan: <https://tourdemoon.com/whats-on>

Instagram: [@Tour_de_Moon](https://www.instagram.com/Tour_de_Moon)

Twitter: [@tourdemoon](https://twitter.com/tourdemoon)

TikTok: [@tourdemoon](https://www.tiktok.com/@tourdemoon)

LLUNIAU LLONYDD GYDA CHORONAU LLAWRYF [yma](#)

y cannoedd o bobl ifanc a phobl greadigol sy'n dod i'r amlwg sydd wedi cael eu cefnogi drwy'r rhaglen ddiwylliannol eithriadol hon. Rwy'n falch iawn, gyda'r BFI a Gŵyl Ffilm Fer Llundain mawr ei bri, ein bod yn gallu cyflwyno eu gwaith i arbenigwyr y diwydiant a chynulleidfaoedd ehangach, ac arddangos y gwaddol sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o UNBOXED."

Mae Tour de Moon yn un o 10 prosiect creadigol mawr a gomisiynwyd fel rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU, a gynhelir ar draws Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru yn 2022. Mae arddangosfa fwyaf uchelgeisiol y DU o gydweithio creadigol yn cynnwys digwyddiadau a gosodiadau mawr a phrofiadau digidol hygyrch yn fyd-eang am ddim.

Mae UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU, ac fe'i comisiynwyd a'i gyflawni mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol ac EventScotland.

Am ragor o wybodaeth ewch i <https://tourdemoon.com/whats-on>

Ffilmiau dethol

Mae ffilmiau yn y rhaglen yn arbrofi gydag estheteg a naratifau aflinol, gan gyfrannu at sgysiau chwareus ynghylch gwrthddiwylliant ieuencid, bywyd nos, gwrthsafiad a gwyddoniaeth. Wedi'u cyfarwyddo gan wneuthurwyr ffilmiau a anwyd yn y 1990au a'r 2000au, mae'r ffilmiau hyn yn waith cenhedlaeth newydd bwerus.

Osupa, ffilm ffugwyddonol ddyfodolaidd Affricanaidd wedi'i chyfarwyddo gan yr artist gweledol o Lundain ac o dras Jamaicaidd Shane Sutherland sy'n dilyn teithiwr o'r Ddaear fodern sydd â'r dasg o olrhain galwad o agosrwydd o'r gofod... ar ochr dywyll y lleuad.

Mae **Baddie** gan y rapiwr sy'n gwthio ffiniau, Karnage, yn adrodd stori plentyn a gymerwyd oddi wrth ei fam a'i hyfforddi i fod yn arf, sydd wedyn yn dianc yn 22 oed i geisio dial ar ei ddalwyr.

Mae **Lamp**, rhaglen ddogfen gan Dian Joy, artist rhyngddisgyblaethol Prydeinig-Nigeraidd sydd wedi'i lleoli yn Llundain, yn archwilio sut mae byw mewn byd o uwch-ysgogiadau yn effeithio ar reddf ac awydd.

Mae **Experimental Moonphase** gan Rizq Yazed, artist amlgyfrwng Malaysiaidd o'r DU, yn adrodd stori am ba mor hurt yw credoau ofergoelus trwy ganolbwyntio ar gwpl sy'n cymryd astrolleg ychydig yn rhy ddirifol.

Mae **Barnacled** gan y cwpl cwiar o Peckham, yr artist Leo Douglas-Morris Benavides, a'r ymchwilydd gweledol Serena Mirambeau Brey, yn dilyn criw ffilm sy'n trafod arferion dyddiol a rhythmau cylchol, gan fyfyrion ar y tebygrwydd rhwng adar a physgod, ac ar rannu'r dinod a'r gwerthfawr.



CREATIVITY IN THE UK

Gwefan: <https://tourmoon.com/whats-on>Instagram: [@Tour_de_Moon](https://www.instagram.com/Tour_de_Moon)Twitter: [@tourmoon](https://twitter.com/tourmoon)TikTok: [@tourmoon](https://www.tiktok.com/@tourmoon)LLUNIAU LLONYDD GYDA CHORONAU LLAWRYF [yma](#)

Mae **Many Moons Ago** gan Kes Eccleston, artist Affro Caribïaidd o Lundain, yn archwilio dylanwad y lleuad ar hud a dynamigrwydd duwch, mamolaeth ac ysbrydolrwydd Affricanaidd.

Mae **People Carry Place**, ffilm ffugwyddonol a gyfarwyddwyd gan yr artist o Lundain, Issi Nanabeyin, wedi'i chreu o recordiadau gweledol a sonig o ryngweithio 'estron' yn y Llundain arferol, er mwyn dychmygu tirwedd yn y dyfodol lle mae rhywogaethau gwahanol yn cyfathrebu â'i gilydd, yn caru ei gilydd ac yn tyfu gyda'i gilydd.

Mae **EARTHBODY(S)_BIOME(TRICS)** gan Mirrored Fatality - deuawd celf perfformio cwiar Kapampangan a Desi Mwslimaidd, Mango a Samar - yn daith ymgolli arbrofol ynghylch sut yr ydym yn cael ein tynnu o'n tiroedd hynafiaethol a'n gwthio i ddinasoedd sy'n dioddef o COVID-19, apartheid bwyd, gwladwriaeth heddlu, a hiliaeth amgylcheddol.

Mae **The Very Thought of You**, gwaith cyfnewidiol o ran genre gan yr artist o Lundain, Bart Seng Wen Long, yn ddilyniant rhydd i fytholeg hynafol Chang-E - mae'n dilyn profiad rhithweledol ffoadur o'r lleuad yn sownd mewn stasis gwactod ac yn cael ei aflonyddu gan ysbryd ei gyn-gariad.

Mae'r ffuglen ddogfennol **Mi Coro** gan Moréna Espiritual, artist perfformiad a cherddor traws o dras frodorol ac Affricanaidd, yn cynnwys cyfweiliadau â dawnswyr vogue du, brodorol, ac o liw. Maen nhw'n manylu ar eu hymdrechion aflwyddiannus wrth gyfathrebu â rhywogaeth 'estron' newydd a elwir yn cis-heterorywiol, gan geisio defnyddio dawnasio vogue fel arf i gysylltu.

Mae **Madness and the Moon**, cerdd wedi'i hanimeiddio gan y storiwr rhyngddisgyblaethol a'r artist o'r gogledd-orllewin, Alexis Maxwell yn cyfuno'r gair llafar, ffilmio byw a thaflunio i greu stori unigryw am ein perthynas ag iechyd meddwl.

Nodiadau i Olygyddion

Mae tocynnau ar gael gan BFI Southbank, ceir rhagor o fanylion yma:

<https://whatson.bfi.org.uk/Online/article/Isffmooncinema>

Am ragor o wybodaeth, cyfweiliadau, dangosiadau a thocynnau i'r wasg, cysylltwch â Kean Cao yn admin@nellyben.com

Amseriad

8.40pm - 10.40pm

Hyd y dangosiad: 115 mun. Dilynir y dangosiad gan sesiwn holi ac ateb gyda'r cyfarwyddwyr, dan arweiniad Nelly Ben Hayoun, a gwesteion.

10pm - 2am

Parti wedi'r digwyddiad gan PXSSY PALACE ym Mar Benugo, BFI Southbank.

Caiff aelodau'r gynulleidfa ddiod am ddim os ydynt wedi prynu tocyn ar gyfer dangosiad Moon Cinema. Noder, argymhellir y digwyddiad hwn ar gyfer 18+.



Crynodebau o'r ffilmiau a bywgraffiadau gwneuthurwyr ffilmiau: [Google doc](#)
[Lluniau llonydd o'r ffilmiau - ffolder Google Drive](#)
[Lluniau llonydd o'r ffilmiau gyda choronau llawryf yr LSFF - ffolder Google Drive](#)

Statws Première

FFILMIAU A GWNEUTHURWYR FFILMIAU DETHOL ar gyfer DANGOSIAD BFI Southbank:

1. Osupa (Shane Sutherland, 10:25 mun) **PREMIÈRE BFI Southbank**
2. Baddie (Karnage, 2:23 mun) **PREMIÈRE LLUNDAIN**
3. Lamp (Dian Joy, 8:56 mun) **PREMIÈRE BFI Southbank**
4. Moonphase (Rizq Yazed, 7:39 mun) **PREMIÈRE LLUNDAIN**
5. Barnacled (Leo a Serena, 7 mun) **PREMIÈRE Y DU**
6. Many moons ago (Kes Eccleston, 5:08 mun) **PREMIÈRE BFI Southbank**
7. OVER THE MOON, ACROSS THE SEAS PEOPLE CARRY PLACE (Issi Nanabeyin 6:33 mun) **PREMIÈRE BFI Southbank**
8. EARTHBODY(S)_BIOME(TRICS) (Mirrored Fatality, 15:21 mun) **PREMIÈRE LLUNDAIN**
9. MADNESS AND THE MOON (Alexis Maxwell, 8:06 mun) **PREMIÈRE LLUNDAIN**
10. The Very Thought of You (Bart Seng Wen Long, 10:20 mun) **PREMIÈRE LLUNDAIN**
11. MI CORO (Moréna Espiritual, 12:51 mun) **PREMIÈRE LLUNDAIN**

Bywgraffiadau Llawn

TOUR DE MOON

Mae Tour de Moon yn antur gosmig, gŵyl gyhoeddus ar raddfa fawr o brofiadau ymgolli a digwyddiadau byw a ddatblygwyd ar y cyd â'n "lloeren fyd-eang", y Lleuad, a welir fel cymeriad, tirwedd ac arf i brocio dychymyg radical. Mae'r ŵyl, sy'n cynnwys wyth maes rhaglennu, yn ymgysylltu ag ymwelwyr drwy brofiadau byw a rhithwir, gan gefnogi ieuencid, crewyr bywyd nos, gwyddonwyr a chrewyr digidol drwy gydweithrediad. Mae Tour de Moon yn ceisio dechreuadau newydd, i rymuso eraill i greu, i gychwyn, i arloesi gyda meddwl ac arferion plwraliaethol newydd fel nad yw hanes yn ailadrodd ei hun ar y Ddaear a thu hwnt. Mae Tour de Moon yn cynnwys mwy na 90 o unigolion fel rhan o'i dîm, Bwrdd Gohebwyd Ieuencid a Bwrdd Cynghori a sefydliadau cydweithredol eraill, i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i greu gŵyl sy'n ymroddedig i blwraliaeth, undod a thegwch.

www.tourdemoon.com

UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU

Roedd UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn ddatblygiad o greadigrwydd a oedd yn digwydd ledled y DU yn 2022, gyda'r nod o gyrraedd miliynau a dod â phobl at ei gilydd. Roedd yn cynnwys digwyddiadau, gosodiadau a phrofiadau digidol ar raddfa fawr am ddim ac yn hygyrch yn fyd-eang, yn arddangosfa fwyaf uchelgeisiol y DU o gydweithredu creadigol. Wedi'i gynhyrchu gan rai o'r meddyliau mwyaf disglair ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg, roedd UNBOXED yn cynnwys deg prosiect creadigol aml-safle a digidol mawr yn rhannu syniadau a phosibiliadau newydd ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd y digwyddiadau a'r gweithgareddau rhwng 1 Mawrth a 20 Tachwedd 2022 – o Ynysoedd Allanol

Gwefan: <https://tourdemoon.com/whats-on>Instagram: [@Tour_de_Moon](https://www.instagram.com/Tour_de_Moon)Twitter: [@tourdemoon](https://twitter.com/tourdemoon)TikTok: [@tourdemoon](https://www.tiktok.com/@tourdemoon)LLUNIAU LLONYDD GYDA CHORONAU LLAWRYF [yma](#)

Heledd i Luton ac o Omagh i Abertawe, ac ar draws cyfryngau traddodiadol ac ar-lein. Roedd UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU a chafodd ei gomisiynu a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol ac EventScotland.

www.UNBOXED2022.uk

Gŵyl Ffilm Fer Llundain

Mae'r (LSFF) yn ŵyl nad yw'n ofni cymryd risgiau creadigol a meithrin talent newydd, rhywbeth na welir yn aml yn yr oes hon o gyni a chydymffurfio." — i-D

Sefydlwyd Gŵyl Ffilm Fer Llundain (LSFF) yn 2003 ac mae'n ŵyl ffilm fer annibynnol â chymhwyster BAFTA ac a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Bob mis Ionawr, mae LSFF yn cynnal deg diwrnod o ddigwyddiadau yn cynnwys ffilmiau ffurf fer, sgysiau a detholiadau amlddisgyblaethol. Rydym yn cyflwyno rhwng 250 a 500 o ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol ym mhob cynhyrchiad, wedi'u rhaglennu'n gydweithredol allan o 5000+ o gyflwyniadau agored, ochr yn ochr â Digwyddiadau Arbennig a chynnig gan y diwydiant o weithdai, paneli a thrafodaethau ar gyfer gwneuthurwyr ffilmiau a gweithwyr.

Mae'r LSFF yn bodoli i amlygu llu o wneuthurwyr ffilmiau, artistiaid gweledol a phobl greadigol, ar draws croestoriadau a gydag ymrwymiad i leisiau ymylol. Rydym yn ymfalchïo mewn ethos 18 mlynedd o roi lle ar sgrin a gwelededd i wneuthurwyr ffilmiau anghonfensiynol a hollol annibynnol, ac mae ein proses raglennu yn ceisio lleoli'r cyfoes mewn deialog â'i hanes a'r byd yn gyffredinol. Ystyriwn yr LSFF yn llwyfan lle gall gwneuthurwyr ffilmiau ennill profiad a diffinio eu gyrfaoedd, ac yn llwyfan sy'n dathlu'r trysorau archifol a'r ddawn a ddaeth â ni yma.

www.shortfilms.org.uk

PXSSY PALACE

Llwyfan celfyddydol yw PXSSY PALACE sydd wedi'i wreiddio mewn bywyd nos bwriadol, sy'n dathlu pobl dduon, frodorol a phobl o liw sy'n fenywod, cwiar, rhyngryw, traws neu anneuaidd. Rydym yn darparu lle i ddawnsio, cysylltu ac ymgysylltu, gan annog cydsyniad, rhyddid rhywiol, plaser, mynegiant ac archwilio ein hunain go iawn.

www.pxssypalace.com

BFI Southbank

Rydym yn elusen ddiwylliannol, yn ddsbarthwr y Loteri Genedlaethol, ac yn brif sefydliad y DU ar gyfer ffilm a'r delweddau symudol. Ein cenhadaeth yw:

- Cefnogi creadigrwydd a mynd ati i chwilio am y genhedlaeth nesaf o storiwyr y DU
- Tyfu a gofalu am Archif Genedlaethol y BFI, yr archif ffilm a theledu mwyaf yn y byd
- Cynnig yr ystod ehangaf o ddiwylliant delweddau symudol y DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau - a gyflwynir ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd o ffilm a'r ddelwedd symudol
- Gweithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i sicrhau twf parhaus diwydiannau sgrin y DU



CREATIVITY IN THE UK

Gwefan: <https://tourdeemoon.com/whats-on>Instagram: [@Tour_de_Moon](https://www.instagram.com/Tour_de_Moon)Twitter: [@tourdeemoon](https://twitter.com/tourdeemoon)TikTok: [@tourdeemoon](https://www.tiktok.com/@tourdeemoon)LLUNIAU LLONYDD GYDA CHORONAU LLAWRYF [yma](#)

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen gofrestrdedig a lywodraethir gan Siarter Frenhinol. Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr y BFI yw Tim Richards
www.bfi.org.uk

Nelly Ben Hayoun Studios - Sylfaenwyr Tour de Moon, Moon Press, University of the Underground a'r International Space Orchestra.

Sefydlwyd Nelly Ben Hayoun Studios yn 2009 ac mae'n stiwdio ddylunio ryngddisgyblaethol arobryn sy'n dyfeisio digwyddiadau chwyldroadol, profiadau, a ffilmiau hir. Dan arweiniad y dylunydd, addysgwyr, gwneuthurwr ffilmiau, cyflwynydd radio a'r bocsiwr amatur Dr Nelly Ben Hayoun-Stépanian, mae'r stiwdio'n gweithio ar brosiectau uchelgeisiol iawn i rymuso gwrthddiwylliant a chymunedau drwy adeiladu llwyfannau er mwyn iddyn nhw herio strwythurau pŵer, gan hefyd ganiatáu newid a meddwl beirniadol drwy brofiadau ymgolli amlweddol. Mae Nelly a'i thîm o benseiri, dylunwyr graffeg, dylunwyr tecstilau, athronwyr a mwy wedi ymgynghori a gweithio gyda gwyddonwyr blaenllaw, pobl greadigol, awduron, brandiau, gwleidyddion, llunwyr polisi, cerddorion, a pheirianwyr ledled y byd ac mae ganddynt hanes blaenorol o herio mecanwaith ymgysylltu â'r cyhoedd yn llwyddiannus drwy arferion theatrig, profiadol a dylunio. Mae'r Studios yn cefnogi hyfforddiant pobl ifanc, trwy'r University of the Underground, elusen hyfforddiant am ddim gydag aelodau'r bwrdd yn cynnwys Pussy Riot, Noam Chomsky, Arjun Appadurai a Massive Attack ymysg eraill yn 2017 ac sy'n cefnogi addysg blwrailaethol a thrawswladol am ddim. Ymhlith y cleientiaid a'r cydweithwyr mae NASA, y Cenhedloedd Unedig, LEGO, Mattel a llawer mwy.

www.nellyben.com

BENUGO

Sefydlwyd Benugo ym 1998 yn Clerkenwell, Llundain, gan y brodyr Ben a Hugo. Roedd ganddyn nhw weledigaeth o nid dim ond creu bwyd gwych, naturiol ond rhoi rhywbeth i Lundain oedd yn brofiad go iawn. Mae'r weledigaeth hon dal yn wir heddiw. Mae brand Benugo yn ymestyn o siopau stryd fawr arobryn i gaffis a bwytai o fewn rhai o fannau cyhoeddus mwyaf poblogaidd y byd ac atyniadau sy'n denu lluo o ymwelwyr fel BFI Southbank, Amgueddfa Astudiaethau Natur, Amgueddfa Victoria ac Albert, Y Parciau Brenhinol, Yr Amgueddfa Brydeinig, Cestyll Caeredin a Stirling a John Lewis ledled y DU. Mae disgyblaeth manwerthu gref ynghyd ag ysbryd annibynnol ac entrepreneuraidd yn sail i'r brand cyfan.

Wrth i'r diwydiant croeso weithio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, mae Benugo yn ymdrechu i wneud dewisiadau gwell ac mae'n diweddarau polisïau'n gyson yn unol â hyn.

Yn ddiweddar, mae Benugo wedi lansio labelu carbon sy'n seiliedig ar wyddoniaeth i helpu ymwelwyr i wneud dewisiadau bwyd gwych yn seiliedig ar effaith amgylcheddol. Mae'r system labelu data a charbon wedi'i datblygu a'i gweinyddu gan Foodprint, sef system sgorio effaith amgylcheddol arloesol awtomatig arobryn gan Nutrics ar gyfer y sector lletygarwch a gwasanaethau bwyd. Mae ei labeli yn amlygu lefelau sgorio effaith carbon o A i E, ac A yw'r dewis mwyaf ecogyfeillgar. Mae Benugo yn gweini coffi carbon niwtral mewn cydweithrediad â ClimatePartner ymhob siop. Mae blend espresso Benugo yn cael ei fragu gyda ffa sydd ag ardystiad 100% y Rainforest Alliance.

Mae Benugo wedi cyflwyno gwellt papur a chytleri pren, mae powlenni salad yn cael eu gwneud o 70% o blastig neu gardfwrdd gwasgedig wedi'i ailgylchu, napcynau wedi'u gwneud o bapur



CREATIVITY IN THE UK



Gwefan: <https://tourdemoon.com/whats-on>

Instagram: [@Tour_de_Moon](https://www.instagram.com/Tour_de_Moon)

Twitter: [@tourdemoon](https://twitter.com/tourdemoon)

TikTok: [@tourdemoon](https://www.tiktok.com/@tourdemoon)

LLUNIAU LLONYDD GYDA CHORONAU LLAWRYF [yma](#)

wedi'i ailgylchu 100%, gwneir pob pot ffrwythau ac iogwrt drwy ddefnyddio plastig wedi'i ailgylchu ac maen bosibl eu hailgylchu, gweinir diodydd poeth heb gaeadau oni bai fod cwsmeriaid yn gofyn amdanynt (mae hyn yn lleihau'r defnydd o gaeadau plastig 60%), ac mae modd ailgylchu pob potel blastig. Mae gan Benugo hefyd botel ddŵr alwminiwm y gellir ei hail-lenwi'n a'i defnyddio'n ddi-ddiwedd; mae ei hail-lenwi 10 gwaith yn unig yn osgoi 70g o wastraff plastig a 790g o allyriadau CO2.

www.benugo.com